

RHESTR O WELLIANNAU WEDI'U DIDOLI MARSHALLED LIST OF AMENDMENTS

Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) Public Health (Wales) Bill

Mae'r gwelliannau â * ar eu pwys yn rhai newydd neu'n rhai sydd wedi'u haddasu
Amendments marked * are new or have been altered

Mae gwelliannau a nodir ag 'R' yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant
cofrestradwy o dan Reol Sefydlog 2 neu fuddiant perthnasol o dan Reolau Sefydlog 13 neu
17 wrth gyflwyno'r gwelliant.

Amendments marked 'R' mean that the Member has declared either a registrable interest
under Standing Order 2 or relevant interest under Standing Orders 13 or 17 when tabling
the amendment.

Caiff y Bil ei ystyried yn y drefn a ganlyn—

The Bill will be considered in the following order—

Sections 3 to 26	Adran 3 i 26
Section 2	Adran 2
Sections 27 to 52	Adran 27 i 52
Sections 54 to 91	Adran 54 i 91
Section 53	Adran 53
Sections 92 to 124	Adran 92 i 124
Schedules 1 to 4	Atodlen 1 i Atodlen 4
Section 1	Adran 1
Long title	Teitl Hir

Rhun ap Iorwerth

65

Page 2, after line 21, insert a new section—



'PART []

OBESITY

[] National obesity strategy: preparation, implementation and review

- (1) The Welsh Ministers must prepare and publish a national obesity strategy ('the strategy') which must include—
 - (a) the steps and actions that the Welsh Ministers and public bodies will take to reduce obesity levels amongst the general population of Wales, and
 - (b) any other information which the Welsh Ministers consider appropriate.
- (2) The Welsh Ministers and public bodies must, when exercising any of their functions, have due regard to the requirements of the strategy.
- (3) The Welsh Ministers must publish the strategy no later than twelve months beginning with the date on which this Act receives Royal Assent.
- (4) Subsequently, the Welsh Ministers must review the strategy every three years.
- (5) The Welsh Ministers may also review the strategy at any time.
- (6) When the Welsh Ministers review the strategy they must publish a statement of the steps and progress made which they have taken in accordance with the strategy during the period—
 - (a) beginning with the date on which the strategy was last published, and
 - (b) ending with the date on which that review commenced.
- (7) When the Welsh Ministers review the strategy and consider that a change is needed, they must—
 - (a) revise the strategy, and
 - (b) publish the revised strategy.'

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd—

'RHAN []

GORDEWDRA

[] Strategaeth gordewdra genedlaethol: llunio, gweithredu ac adolygu

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi strategaeth gordewdra genedlaethol ('y strategaeth') y mae'n rhaid iddi gynnwys—
 - (a) y camau a'r camau gweithredu y bydd Gweinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus yn eu cymryd i leihau lefelau gordewdra ymysg y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru, a
 - (b) unrhyw wybodaeth arall y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol.
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru a chyrrff cyhoeddus, wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau, roi sylw i ofynion y strategaeth.



- (3) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r strategaeth heb fod yn hwyrach na deuddeng mis yn dechrau â'r dyddiad y bydd y Ddeddf hon yn cael Cydsyniad Brenhinol.
- (4) Wedi hynny, rhaid i Weinidogion Cymru adolygu'r strategaeth bob tair blynedd.
- (5) Caiff Gweinidogion Cymru adolygu'r strategaeth hefyd unrhyw bryd.
- (6) Pan yw Gweinidogion Cymru yn adolygu'r strategaeth rhaid iddynt gyhoeddi datganiad o'r camau y maent wedi eu cymryd a'r cynnydd y maent wedi ei wneud yn unol â'r strategaeth yn ystod y cyfnod –
 - (a) sy'n dechrau â'r dyddiad y cyhoeddwyd y strategaeth ddiwethaf, a
 - (b) sy'n dod i ben â'r dyddiad y dechreuodd yr adolygiad hwnnw.
- (7) Pan yw Gweinidogion Cymru yn adolygu'r strategaeth ac yn ystyried bod angen ei newid, rhaid iddynt –
 - (a) diwygio'r strategaeth, a
 - (b) cyhoeddi'r strategaeth ddiwygiedig.'.

Rhun ap Iorwerth

66

Page 2, after line 21, insert a new section –

[] **National obesity strategy: consultation**

- (1) The Welsh Ministers must consult any person they consider is likely to be interested in the reduction of obesity levels amongst the general population of Wales before they publish the national obesity strategy under –
 - (a) section [section to be inserted by amendment 65](1), or
 - (b) section [section to be inserted by amendment 65](7)(b).
- (2) The Welsh Ministers must make available to each person consulted under subsection (1) the strategy which they are proposing to publish.'.

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

[] **Strategaeth gordewdra genedlaethol: ymgynghori**

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw berson y maent yn ystyried ei fod yn debygol o fod â buddiant yn lleihau lefelau gordewdra ymysg y boblogaeth gyffredinol yng Nghymru cyn iddynt gyhoeddi'r strategaeth gordewdra genedlaethol o dan –
 - (a) adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 65](1), neu
 - (b) adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 65](7)(b).
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru roi'r strategaeth y maent yn bwriadu ei chyhoeddi ar gael i bob person yr ymgynghorir ag ef o dan is-adran (1).'

Rhun ap Iorwerth

67

Page 2, after line 21, insert a new section –



[] Meaning of “public body”

- (1) For the purposes of section [section to be inserted by amendment 65], each of the following persons is a “public body” –
 - (a) the Welsh Ministers;
 - (b) a local authority;
 - (c) a Local Health Board;
 - (d) the following National Health Service Trusts –
 - (i) Public Health Wales;
 - (ii) Velindre;
 - (e) a National Park authority for a National Park in Wales;
 - (f) a Welsh fire and rescue authority;
 - (g) the Natural Resources Body for Wales;
 - (h) the Higher Education Funding Council for Wales;
 - (i) the Arts Council of Wales;
 - (j) the Sports Council for Wales;
 - (k) the National Library of Wales;
 - (l) the National Museum of Wales.
- (2) Regulations may amend subsection (1) by –
 - (a) adding a person,
 - (b) removing a person, or
 - (c) amending a reference to a person.
- (3) But the regulations may not amend subsection (1) by adding a person unless that person exercises functions of a public nature.
- (4) If the regulations amend subsection (1) so as to add a person who has functions of a public nature and other functions, section [section to be inserted by amendment 65] apply to that person only in relation to those of its functions which are of a public nature.
- (5) In this section –

“Local Health Board” (“*Bwrdd Iechyd Lleol*”) means a Local Health Board established under section 11 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);

“Welsh fire and rescue authority” (“*awdurdod tân ac achub yng Nghymru*”) means an authority in Wales constituted by a scheme under section 2 of the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21) or a scheme to which section 4 of that Act applies.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –

[] Ystyr “corff cyhoeddus”

- (1) At ddibenion adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 65], mae pob un o'r personau canlynol yn “gorff cyhoeddus” –
 - (a) Gweinidogion Cymru;



- (b) awdurdod lleol;
 - (c) Bwrdd Iechyd Lleol;
 - (d) yr Ymddiriedolaethau Gwasanaeth Iechyd Gwladol a ganlyn—
 - (i) Iechyd Cyhoeddus Cymru;
 - (ii) Felindre;
 - (e) awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer Parc Cenedlaethol yng Nghymru;
 - (f) awdurdod tân ac achub yng Nghymru;
 - (g) Corff Adnoddau Naturiol Cymru;
 - (h) Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru;
 - (i) Cyngor Celfyddydau Cymru;
 - (j) Cyngor Chwaraeon Cymru;
 - (k) Llyfrgell Genedlaethol Cymru;
 - (l) Amgueddfa Genedlaethol Cymru.
- (2) Caiff rheoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy—
- (a) ychwanegu person,
 - (b) dileu person, neu
 - (c) diwygio'r cyfeiriad at berson.
- (3) Ond ni chaiff y rheoliadau ddiwygio is-adran (1) drwy ychwanegu person oni bai bod y person hwnnw yn arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus.
- (4) Os yw'r rheoliadau yn diwygio is-adran (1) er mwyn ychwanegu person a chanddo swyddogaethau o natur gyhoeddus a swyddogaethau eraill, dim ond mewn perthynas â'r swyddogaethau hynny sydd o natur gyhoeddus y mae adran [yr adran sy'n cael ei mewnosod gan welliant 65] yn gymwys i'r person hwnnw.
- (5) Yn yr adran hon—
- ystyr "awdurdod tân ac achub yng Nghymru" ("*Welsh fire and rescue authority*") yw'r awdurdod yng Nghymru a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo;
- ystyr "Bwrdd Iechyd Lleol" ("*Local Health Board*") yw Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42).'

Rhun ap Iorwerth

68

Page 2, after line 21, insert a new section—

[] **Requirements for food and drink provided in any hospital, adult care home and early years settings**



- (1) The Welsh Ministers may by regulations prescribe requirements which, subject to such exceptions as may be provided for by or under the regulations, are to be complied with in connection with food or drink provided on the premises of any hospital, care home or early years settings.
- (2) Regulations under this section may in particular –
 - (a) specify nutritional standards, or other nutritional requirements, which are to be complied with;
 - (b) require that specified descriptions of food or drink are not to be provided;
 - (c) specify maximum amounts of –
 - (i) fat,
 - (ii) saturated fat,
 - (iii) salt, and
 - (iv) sugar,which the food or drink can contain.
- (3) Requirements prescribed by virtue of subsection (1) do not apply to food or drink brought on to the premises of a hospital, care home or early years settings where the food or drink is brought on to those premises by any person for that person's own consumption.
- (4) Regulations under this section may prescribe –
 - (a) different requirements in relation to different classes or descriptions of hospital, care home or early years settings as specified in the regulations,
 - (b) different requirements in connection with food or drink provided by or to different classes or descriptions of person as specified in the regulations, and
 - (c) requirements which apply during different periods of the day as specified in the regulations.
- (5) Before making regulations under this section the Welsh Ministers must consult such other persons as they consider appropriate.
- (6) In this section –

“hospital” (*“ysbyty”*) has the meaning given by section 206 of the National Health Service (Wales) Act 2006 (c.42);

“adult care home” (*“cartref gofal i oedolion”*) means premises at which a care home service within the meaning given by paragraph 1 of Schedule 1 to the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 (anaw 2) is provided to persons aged 18 or over;

“early years settings” (*“lleoliadau blynyddoedd cynnar”*) means any settings of childcare for the period of a child’s life from birth to seven years (up to and including the day before the child’s eighth birthday), other than care provided for a child by a parent, relative or foster parent of the child.’.

Tudalen 2, ar ôl llinell 24, mewnosoder adran newydd –



[] Gofynion ar gyfer bwyd a diod a ddarperir mewn unrhyw ysbyty, cartref gofal i oedolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar

- (1) Caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ragnodi gofynion y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy mewn cysylltiad â bwyd neu ddiod a ddarperir ar fangre unrhyw ysbyty, cartref gofal neu leoliad blynyddoedd cynnar, yn ddarostyngedig i unrhyw eithriadau y darperir ar eu cyfer gan neu o dan y rheoliadau.
- (2) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon yn benodol-
 - (a) pennu safonau maeth, neu ofynion eraill o ran maeth, y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy;
 - (b) ei gwneud yn ofynnol nad yw disgrifiadau o fwyd neu ddiod a bennir i gael eu darparu;
 - (c) pennu uchafsymiau –
 - (i) braster,
 - (ii) braster dirlawn,
 - (iii) halen, a
 - (iv) siwgr,y caniateir i'r bwyd neu'r ddiod eu cynnwys.
- (3) Nid yw gofynion a ragnodir yn rhinwedd is-adran (1) yn gymwys i fwyd neu ddiod y deuir ag ef i fangre ysbyty, cartref gofal neu leoliad blynyddoedd cynnar pan ddeuir â'r bwyd neu'r diod i'r fangre honno gan unrhyw berson i'w fwyta neu i'w hyfed gan y person hwnnw ei hun.
- (4) Caiff rheoliadau o dan yr adran hon ragnodi-
 - (a) gofynion gwahanol mewn perthynas â dosbarthau neu ddisgrifiadau gwahanol o ysbytai, cartrefi gofal neu leoliadau blynyddoedd cynnar fel a bennir yn y rheoliadau,
 - (b) gofynion gwahanol mewn cysylltiad â bwyd neu ddiod a ddarperir gan neu ar gyfer gwahanol ddosbarthau neu ddisgrifiadau o berson fel y'u pennir yn y rheoliadau, ac
 - (c) gofynion sy'n gymwys yn ystod cyfnodau gwahanol o'r dydd fel y'u pennir yn y rheoliadau.
- (5) Cyn gwneud rheoliadau o dan yr adran hon, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y maent yn ystyried eu bod yn briodol.
- (6) Yn yr adran hon-

ystyr "cartref gofal i oedolion" (*"adult care home"*) yw mangre lle y darperir gwasanaeth cartref gofal o fewn yr ystyr a roddir gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (dccc 2) i bersonau sy'n 18 oed neu'n hŷn;

ystyr "lleoliadau blynyddoedd cynnar" (*"early years settings"*) yw lleoliadau gofal plant am y cyfnod o fywyd plentyn rhwng ei eni a saith mlwydd oed (hyd at a chan gynnwys y diwrnod cyn ei ben-blwydd yn wyth oed), ac eithrio gofal a ddarperir ar gyfer plentyn gan riant, perthynas neu riant maeth y plentyn.



mae i "ysbyty" yr ystyr a roddir i "hospital" gan adran 206 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (p.42)."

Angela Burns 80

Section 5, page 4, line 18, after 'used', insert 'regularly'.

Adran 5, tudalen 4, llinell 21, ar ôl 'defnyddir', mewnosoder 'yn rheolaidd'.

Angela Burns 81

Section 8, page 5, after line 36, insert –

'() An area designated under subsection (4) must –

- (a) not be in direct public view;
- (b) display information about smoking cessation and related advice.'

Adran 8, tudalen 5, ar ôl llinell 37, mewnosoder –

'() Rhaid i ardal a ddynodir o dan is-adran (4) –

- (a) peidio â bod yng ngolwg uniongyrchol y cyhoedd;
- (b) arddangos gwybodaeth am roi'r gorau i ysmegu a chynghor cysylltiedig.'

Angela Burns 82

Section 10, page 6, line 26, leave out 'any place' and insert 'places'.

Adran 10, tudalen 6, llinell 28, hepgorer 'unrhyw fan' a mewnosoder 'fannau'.

Angela Burns 83

Section 10, page 6, line 26, leave out 'description of place' and insert 'descriptions of places'.

Adran 10, tudalen 6, llinell 28, hepgorer 'ddisgrifiad o fan' a mewnosoder 'ddisgrifiadau o fannau'.

Angela Burns 84

Section 10, page 6, line 26, leave out 'is' and insert 'are'.

Adran 10, tudalen 6, llinell 29, hepgorer 'yw'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 5, 6, 7, 8 neu 9 gael ei drin fel mangre ddi-fwg' a mewnosoder 'ydynt yn ddi-fwg yn rhinwedd adran 5, 6, 7, 8 neu 9 gael eu trin fel mangreoedd di-fwg'.

Angela Burns 85

Section 10, page 6, after line 28, insert –



- '() But the regulations must not be used to provide for all places in Wales, and all descriptions of places in Wales, that are not smoke-free by virtue of section 5, 6, 7, 8 or 9 to be treated as smoke-free premises for the purposes of this Chapter (see also section 11).'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 30, mewnosoder –

- '() Ond rhaid i'r rheoliadau beidio â chael eu defnyddio i ddarparu i bob man yng Nghymru, a phob disgrifiad o fan yng Nghymru, nad yw'n ddi-fwg yn rhinwedd adran 5, 6, 7, 8 neu 9 gael ei drin fel mangre ddi-fwg at ddibenion y Bennod hon (gweler hefyd adran 11).'

Rhun ap Iorwerth

69

Section 10, page 6, after line 33, insert –

- '() Each set of regulations may provide for only one place, or one description of a place, to be treated as smoke-free premises.'

Adran 10, tudalen 6, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- '() Dim ond mewn perthynas ag un man, neu un disgrifiad o fan, y caiff pob set o reoliadau ddarparu iddo gael ei drin fel mangre ddi-fwg.'

Rebecca Evans

19

Section 15, page 9, line 28, leave out subsections (1) to (2) and insert –

- '() Each local authority is an enforcement authority in relation to premises, places and vehicles that are within its area.
- () Regulations may make provision for the chief officer of police for a police area, in addition, to be an enforcement authority in relation to vehicles that are in that police area.'

Adran 15, tudalen 9, llinell 31, hepgorer is-adrannau (1) hyd at (2) a mewnosoder –

- '() Mae pob awdurdod lleol yn awdurdod gorfodi mewn perthynas â mangreoedd, mannau a cherbydau sydd yn ei ardal.
- () Caiff rheoliadau wneud darpariaeth i brif swyddog heddlu ardal heddlu, yn ogystal, fod yn awdurdod gorfodi mewn perthynas â cherbydau sydd yn yr ardal heddlu honno.'

Rebecca Evans

20

Section 15, page 9, line 34, leave out 'designated' and insert 'an enforcement authority'.

Adran 15, tudalen 9, llinell 36, hepgorer 'mae wedi ei ddynodi' a mewnosoder 'mae'n awdurdod gorfodi'.



Rebecca Evans **21**

Section 17, page 10, line 22, leave out 'by warrant signed by the justice authorise' and insert 'issue a warrant authorising'.

Adran 17, tudalen 10, llinell 25, hepgorer 'drwy warant sydd wedi ei llofnodi gan yr ynad' a mewnosoder 'ddyroddi gwarant sy'n'.

Rebecca Evans **22**

Section 17, page 10, line 25, leave out 'the justice signs it' and insert 'it was issued'.

Adran 17, tudalen 10, llinell 28, hepgorer 'y mae'r ynad yn ei llofnodi' a mewnosoder 'y'i dyroddwyd'.

Rebecca Evans **23**

Section 18, page 11, line 1, leave out 'by warrant signed by the justice authorise' and insert 'issue a warrant authorising'.

Adran 18, tudalen 11, llinell 1, hepgorer 'drwy warant sydd wedi ei llofnodi gan yr ynad' a mewnosoder 'ddyroddi gwarant sy'n'.

Rebecca Evans **24**

Section 18, page 11, line 12, leave out 'the justice signs it' and insert 'it was issued'.

Adran 18, tudalen 11, llinell 12, hepgorer 'y mae'r ynad yn ei llofnodi' a mewnosoder 'y'i dyroddwyd'.

Rebecca Evans **25**

Section 19, page 11, after line 17, insert—

- '() If the occupier of premises that an authorised officer is authorised to enter by a warrant under section 17 or 18 is present at the time the authorised officer seeks to execute the warrant—
- (a) the occupier must be told the officer's name;
 - (b) the officer must produce to the occupier documentary evidence that the officer is an authorised officer;
 - (c) the officer must produce the warrant to the occupier;
 - (d) the officer must supply the occupier with a copy of it.'

Adran 19, tudalen 11, ar ôl llinell 17, mewnosoder—



- '() Os yw meddiannydd mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd i mewn iddi drwy warant o dan adran 17 neu 18 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant –
- (a) rhaid rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd;
 - (b) rhaid i'r swyddog gyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig;
 - (c) rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant i'r meddiannydd;
 - (d) rhaid i'r swyddog gyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd.'

Angela Burns

78

Section 2, page 2, line 30, leave out ', or being in possession of any other lit substance in a form in which it could be smoked'.

Adran 2, tudalen 2, llinell 34, hepgorer ', neu fod â meddiant ar unrhyw sylwedd arall sydd wedi ei danio ar ffurf y gellid ei ysmegu'.

Angela Burns

79

Section 2, page 2, after line 31, insert –

- '() In this Chapter, smoking does not include using a nicotine inhaling device to create a vapour or aerosol to be inhaled.
- () In this section, a "nicotine inhaling device" is a device designed or adapted for the purpose of inhaling nicotine via a mouth piece (whether or not it is also designed or adapted for other purposes), but does not include a device that is being used for smoking.'

Adran 2, tudalen 2, ar ôl llinell 35, mewnosoder –

- '() Yn y Bennod hon, nid yw ysmegu yn cynnwys defnyddio dyfais mewnanadlu nicotin i greu anwedd neu erosol i'w fewnanadlu.
- () Yn yr adran hon, "dyfais mewnanadlu nicotin" yw dyfais sydd wedi ei dylunio neu ei haddasu at ddiben mewnanadlu nicotin drwy getyn ceg (pa un a yw hefyd wedi ei dylunio neu ei haddasu at ddibenion eraill ai peidio), ond nid yw'n cynnwys dyfais sy'n cael ei defnyddio i ysmegu.'

Angela Burns

6

Section 27, page 17, line 15, leave out subsection (6).

Adran 27, tudalen 17, llinell 14, hepgorer is-adran (6).

Angela Burns

7

Section 27, page 17, line 17, leave out subsection (7).

Adran 27, tudalen 17, llinell 16, hepgorer is-adran (7).



Angela Burns

8

Section 28, page 18, leave out lines 29 to 30.

Adran 28, tudalen 18, hepgorer llinellau 25 hyd at 26.

Angela Burns

9

Page 18, after line 40, insert a new section –

[] Fees

- (1) Regulations may make provision requiring payment of a fee to accompany an application under section 28(1)(a) or 28(1)(b)(i).
- (2) In the case of an application under section 28(1)(a), the first regulations made under subsection (1) must not specify a fee of more than £30.
- (3) In the case of an application under section 28(1)(b)(i), the first regulations made under subsection (1) must not specify a fee of more than £10.
- (4) Before making subsequent regulations under subsection (1), the Welsh Ministers must –
 - (a) consider whether there are persons who appear to be representative of the interests of those likely to be affected by the regulations (“representative persons”), and
 - (b) carry out consultation with any representative persons whom the Welsh Ministers consider it appropriate to consult.’.

Tudalen 18, ar ôl llinell 35, mewnosoder adran newydd –

[] Ffioedd

- (1) Caiff rheoliadau wneud darpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i daliad o ffi fynd gyda chais o dan adran 28(1)(a) neu 28(b)(i).
- (2) Yn achos cais o dan adran 28(1)(a), ni chaniateir i’r rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (1) bennu ffi o fwy na £30.
- (3) Yn achos cais o dan adran 28(1)(b)(i), ni chaniateir i’r rheoliadau cyntaf a wneir o dan is-adran (1) bennu ffi o fwy na £10.
- (4) Cyn gwneud rheoliadau dilynol o dan is-adran (1), rhaid i Weinidogion Cymru –
 - (a) ystyried a oes personau yr ymddengys eu bod yn cynrychioli buddiannau’r rheini y mae’r rheoliadau yn debygol o effeithio arnynt (“personau cynrychiadol”), a
 - (b) cynnal ymgynghoriad ag unrhyw bersonau cynrychiadol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei bod yn briodol ymgynghori â hwy.’.

Rebecca Evans

26

Section 38, page 21, line 34, leave out ‘by warrant signed by the justice authorise’ and insert ‘issue a warrant authorising’.



Adran 38, tudalen 21, llinell 38, hepgorer 'drwy warant sydd wedi ei llofnodi gan yr ynad' a mewnosoder 'ddyroddi gwarant sy'n'.

Rebecca Evans 27

Section 38, page 22, line 2, leave out 'the justice signs it' and insert 'it was issued'.

Adran 38, tudalen 22, llinell 2, hepgorer 'y mae'r ynad yn ei llofnodi' a mewnosoder 'y'i dyroddwyd'.

Rebecca Evans 28

Section 39, page 22, line 20, leave out 'by warrant signed by the justice authorise' and insert 'issue a warrant authorising'.

Adran 39, tudalen 22, llinell 20, hepgorer 'drwy warant sydd wedi ei llofnodi gan yr ynad' a mewnosoder 'ddyroddi gwarant sy'n'.

Rebecca Evans 29

Section 39, page 22, line 23, leave out 'the justice signs it' and insert 'it was issued'.

Adran 39, tudalen 22, llinell 23, hepgorer 'y mae'r ynad yn ei llofnodi' a mewnosoder 'y'i dyroddwyd'.

Rebecca Evans 30

Section 40, page 22, after line 27, insert—

- '() If the occupier of premises that an authorised officer is authorised to enter by a warrant under section 38 or 39 is present at the time the authorised officer seeks to execute the warrant—
- (a) the occupier must be told the officer's name;
 - (b) the officer must produce to the occupier documentary evidence that the officer is an authorised officer;
 - (c) the officer must produce the warrant to the occupier;
 - (d) the officer must supply the occupier with a copy of it.'

Adran 40, tudalen 22, ar ôl llinell 27, mewnosoder—

- '() Os yw meddiannydd mangre y mae swyddog awdurdodedig wedi ei awdurdodi i fynd i mewn iddi drwy warant o dan adran 38 neu 39 yn bresennol ar yr adeg y mae'r swyddog awdurdodedig yn ceisio gweithredu'r warant—
- (a) rhaid rhoi enw'r swyddog i'r meddiannydd;
 - (b) rhaid i'r swyddog gyflwyno i'r meddiannydd dystiolaeth ddogfennol bod y swyddog yn swyddog awdurdodedig;
 - (c) rhaid i'r swyddog gyflwyno'r warant i'r meddiannydd;



(d) rhaid i'r swyddog gyflenwi copi ohoni i'r meddiannydd.'

Angela Burns 10

Section 47, page 25, leave out lines 24 to 25.

Adran 47, tudalen 25, hepgorer llinellau 23 hyd at 24.

Rebecca Evans 31

Section 49, page 27, at the beginning of line 5, insert 'in connection with arrangements under section 50.

Adran 49, tudalen 27, llinell 5, ar ôl 'A', mewnosoder ', mewn cysylltiad â threfniadau o dan adran 50'.

Rebecca Evans 32

Section 49, page 27, line 5, leave out 'knowingly'.

Adran 49, tudalen 27, llinell 5, hepgorer 'gan wybod ei fod yn gwneud hynny,'.

Rebecca Evans 33

Section 49, page 27, line 6, leave out 'who is unaccompanied'.

Adran 49, tudalen 27, llinell 6, hepgorer 'sydd ar ei ben ei hun'.

Rebecca Evans 34

Section 49, page 27, line 7, leave out 'takes place in connection with arrangements within section 50' and insert –

'does not take place either –

(i) in the course of B's trade, profession, business or employment, or

(ii) in the presence of another person who is aged 18 or over,

() at the time of the handing over, A knows that tobacco or cigarette papers or nicotine products (whichever is the case) are being handed over'.

Adran 49, tudalen 27, llinell 8, hepgorer 'yw'r rhoi yn digwydd mewn cysylltiad â threfniadau o fewn adran 50' a mewnosoder –

'nad yw'r rhoi yn digwydd naill ai –

(i) yng nghwrs crefft, proffesiwn, busnes neu gyflogaeth B, neu

(ii) yng ngŵydd person arall sy'n 18 oed neu'n hŷn,

() os yw A, ar adeg y rhoi, yn gwybod bod tybaco neu bapurau sigarêts neu gynhyrchion nicotin (pa un bynnag sy'n gymwys) yn cael eu rhoi'.



Rebecca Evans

35

Section 49, page 27, line 12, leave out 'on it a person's name and address which are on the package for the purposes of' and insert 'an address on it, for the purpose of its delivery to that address in accordance with'.

Adran 49, tudalen 27, llinell 12, hepgorer 'ag enw a chyfeiriad person arno sydd ar y pecyn at ddibenion trefniadau' a mewnosoder 'â chyfeiriad arno, at ddiben ei ddanfon i'r cyfeiriad hwnnw yn unol â threfniadau'.

Rebecca Evans

36

Section 49, page 27, line 14, leave out subsection (2).

Adran 49, tudalen 27, llinell 14, hepgorer is-adran (2).

Rebecca Evans

37

Section 49, page 27, line 18, after 'of', insert 'retail'.

Adran 49, tudalen 27, llinell 19, ar ôl 'gwerthu', mewnosoder 'drwy fanwerthu'.

Rebecca Evans

38

Section 49, page 27, after line 21, insert—

- (5) Where a person ("the accused") is charged with an offence under this section by reason of the accused's own conduct (and otherwise than by virtue of section 44 of the Magistrates' Courts Act 1980 (c.43) (aiders and abettors)) it is a defence for the accused to show—
 - (a) that the accused believed, when the handing over took place, that the person to whom the tobacco, cigarette papers or nicotine products were handed over, or another person present at the time of the handing over, was aged 18 or over, and
 - (b) either—
 - (i) that the accused had taken reasonable steps to establish the age of that person, or
 - (ii) that nobody could reasonably have suspected from that person's appearance that the person was aged under 18.
- (6) For the purposes of subsection (5)(b), the accused is to be treated as having taken reasonable steps to establish the age of a person if—
 - (a) the accused asked that person for evidence of that person's age, and
 - (b) the evidence would have convinced a reasonable person.
- (7) Where a person is charged with an offence under this section by reason of the act or default of another person, or by virtue of the application of section 44 of the Magistrates' Courts Act 1980 (c.43) (aiders and abettors), it is a defence to show that the person took reasonable precautions and exercised due diligence to avoid committing the offence.



- (8) In this section, “employment” means any employment, whether paid or unpaid, and includes –
- (a) work under a contract for services or as an office holder, and
 - (b) work experience provided pursuant to a training course or programme or in the course of training for employment.’.

Adran 49, tudalen 27, ar ôl llinell 21, mewnosoder –

- (5) Pan fo person (“y cyhuddedig”) wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd ymddygiad y cyhuddedig ei hun (ac eithrio yn rhinwedd adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr)) mae’n amddiffyniad i’r cyhuddedig ddangos –
- (a) bod y cyhuddedig yn credu, pan ddigwyddodd y rhoi, fod y person y rhoddwyd y tybaco, y papurau sigarêts neu’r cynhyrchion nicotin iddo, neu berson arall a oedd yn bresennol ar adeg y rhoi, yn 18 oed neu’n hŷn, a
 - (b) naill ai –
 - (i) bod y cyhuddedig wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran y person hwnnw, neu
 - (ii) na allai neb fod wedi amau’n rhesymol o olwg y person hwnnw fod y person o dan 18 oed.
- (6) At ddibenion is-adran (5)(b), mae’r cyhuddedig i gael ei drin fel pe bai wedi cymryd camau rhesymol i gadarnhau oedran person –
- (a) os gofynnodd y cyhuddedig i’r person hwnnw am dystiolaeth o oedran y person hwnnw, a
 - (b) pe bai’r dystiolaeth wedi argyhoeddi person rhesymol.
- (7) Pan fo person wedi ei gyhuddo o drosedd o dan yr adran hon oherwydd gweithred neu ddiffyg person arall, neu yn rhinwedd cymhwyso adran 44 o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p.43) (helpwyr ac anogwyr), mae’n amddiffyniad dangos i’r person gymryd rhagofalon rhesymol ac arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni’r drosedd.
- (8) Yn yr adran hon, ystyr “cyflogaeth” yw unrhyw gyflogaeth, pa un ai â thâl neu’n ddi-dâl, ac mae’n cynnwys –
- (a) gwaith o dan contract am wasanaethau neu fel deiliad swydd, a
 - (b) profiad gwaith a ddarperir yn unol â chwrs neu raglen hyfforddi neu yng nghwrs hyfforddiant ar gyfer cyflogaeth.’.

Angela Burns

86

Page 28, after line 16, insert a new section –

‘CHAPTER []

GUIDANCE

[] Guidance



- (1) The Welsh Ministers must publish guidance for small businesses and individuals about how to comply with this Part.
- (2) The guidance must include guidance about—
 - (a) the reasonable steps that must be taken to cause persons to stop smoking under section 4(1);
 - (b) premises used to any extent as a dwelling being smoke-free;
 - (c) the carrying out of test purchases under section 43;
 - (d) the tobacco and nicotine offences that may result in restricted premises orders (see Chapter 3).
- (3) The Welsh Ministers may revise guidance published under subsection (1) and must publish the revised guidance’.

Tudalen 28, ar ôl llinell 18, mewnosoder adran newydd—

‘PENNOD []

CANLLAWIAU

[] Canllawiau

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau i fusnesau bach ac unigolion ynglŷn â sut i gydymffurfio â’r Rhan hon.
- (2) Rhaid i’r canllawiau gynnwys canllawiau ynglŷn ag—
 - (a) y camau rhesymol y mae’n rhaid eu cymryd i achosi i bersonau beidio ag ysmegu o dan adran 4(1);
 - (b) mangreoedd a ddefnyddir i unrhyw raddau fel annedd i fod yn ddi-fwg;
 - (c) cynnal pryniannau prawf o dan adran 43;
 - (d) y troseddau o ran tybaco a nicotin a allai arwain at orchmynion mangre o dan gyfyngiad (gweler Pennod 3).
- (3) Caiff Gweinidogion Cymru ddiwygio canllawiau a gyhoeddir o dan is-adran (1) a rhaid iddynt gyhoeddi’r canllawiau diwygiedig.’.

Angela Burns

11

Section 54, page 29, after line 13, insert—

‘() laser treatment;’.

Adran 54, tudalen 29, ar ôl llinell 13, mewnosoder—

‘() triniaeth laser;’.

Angela Burns

87

Section 54, page 29, after line 14, insert—



- '(e) any other procedure undertaken for non-medical, non-surgical, aesthetic or therapeutic reasons, which perforates an individual's skin or mucous membrane with a semi-permanent or permanent effect.'

Adran 54, tudalen 29, ar ôl llinell 14, mewnosoder –

- '(e) unrhyw driniaeth arall a gyflawnir am resymau anfeddygol, anllawfeddygol, esthetig neu therapiwtig, ac sy'n trydyllu croen neu bilen fwcaidd unigolyn ag effaith led-barhaol neu barhaol.'

Angela Burns

12

Page 30, line 27, leave out section 57.

Tudalen 30, llinell 30, hepgorer adran 57.

Angela Burns

101

Section 58, page 31, line 23, leave out 'presents or could present' and insert 'poses or could pose a'.

Nid oes angen diwygio'r fersiwn Cymraeg. There is no need to amend the Welsh version.

Rhun ap Iorwerth

70

Section 60, page 33, after line 20, insert –

- '() The conditions specified in the regulations must also include a condition that when an individual performs a special procedure ('tattooing') under section 54(d) and only in the circumstances where that special procedure is the facial tattoo of another individual, such individual is prohibited from doing so until seven days after the first day on which they are instructed to perform a facial tattoo by another individual.'

Adran 60, tudalen 33, ar ôl llinell 18, mewnosoder –

- '() Rhaid i'r amodau a bennir yn y rheoliadau hefyd gynnwys amod y caiff unigolyn sy'n rhoi triniaeth arbennig ('tatwio') o dan adran 54(d), a dim ond mewn amgylchiadau lle mai tatw wyneb unigolyn arall yw'r driniaeth arbennig honno, ei wahardd rhag gwneud hynny tan saith diwrnod ar ôl y diwrnod cyntaf y mae'n cael cyfarwyddyd gan unigolyn arall i roi tatw wyneb.'

Rebecca Evans

39

Section 63, page 34, after line 39, insert –

- '() For the purpose of determining whether an applicant has been convicted of a relevant offence, a conviction is to be taken to include a conviction by or before a court outside England and Wales; and references in this Part to a conviction, or to a person's having been convicted of an offence, are to be interpreted accordingly.'

Adran 63, tudalen 34, ar ôl llinell 37, mewnosoder –



- '() At ddiben dyfarnu a yw ceisydd wedi ei euogfarnu o drosedd berthnasol, mae euogfarn i gael ei chymryd i gynnwys euogfarn gan neu gerbron llys y tu allan i Gymru a Lloegr; ac mae cyfeiriadau yn y Rhan hon at euogfarn, neu at berson sydd wedi ei euogfarnu o drosedd, i gael eu dehongli yn unol â hynny.'

Rebecca Evans

40

Section 63, page 35, line 2, leave out –

' –

- (a) may nevertheless, if it thinks fit having regard to the nature of the offence and any special procedure to which the application relates, issue a special procedure licence to the applicant in respect of the performance of the procedure, but
- (b) if it decides not to issue a licence under paragraph (a) in respect of the performance of a procedure specified in the application,'

and insert –

'must decide whether the applicant's fitness to perform a procedure to which the application relates has been called into question to such an extent that it would be inappropriate to issue the licence in respect of the performance of that procedure.

- () In reaching its decision, the authority must have regard to –
 - (a) the nature and circumstances of the offence, and
 - (b) guidance issued by the Welsh Ministers under subsection [*subsection inserted by amendment 43*].
- () If the local authority decides that the applicant's fitness has not been called into question as described in subsection (2) in respect of the performance of a procedure specified in the application, it must issue the licence in respect of the performance of that procedure.
- () If the local authority decides that the applicant's fitness has been called into question as described in subsection (2) in respect of the performance of a procedure specified in the application –
 - (a) it must not issue the licence in respect of the performance of that procedure, and
 - (b) it'.

Adran 63, tudalen 35, llinell 2, hepgorer pob gair ar ôl a chan gynnwys –

' –

- (a) caiff yr awdurdod, er hynny, os yw'n meddwl bod hynny'n addas gan roi sylw i natur y drosedd ac unrhyw driniaeth arbennig y mae'r cais yn ymwneud â hi, ddyroddi trwydded triniaeth arbennig i'r ceisydd mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth, ond
- (b) rhaid i'r awdurdod, os yw'n penderfynu peidio â dyroddi trwydded o dan baragraff (a) mewn cysylltiad â rhoi triniaeth a bennir yn y cais,'

a mewnosoder –



' , rhaid i'r awdurdod benderfynu a oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd y ceisydd i roi triniaeth y mae'r cais yn ymwneud â hi i'r graddau y byddai'n amhriodol dyroddi'r drwydded mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno.'

- () Wrth wneud ei benderfyniad, rhaid i'r awdurdod roi sylw i—
 - (a) natur ac amgylchiadau'r drosedd, a
 - (b) canllawiau a ddyroddir gan Weinidogion Cymru o dan is-adran [*yr is-adran a fewnosodir gan welliant 43*].
- () Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu nad oes amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd y ceisydd fel y'i disgrifir yn is-adran (2) mewn cysylltiad â rhoi triniaeth a bennir yn y cais, rhaid iddo ddyroddi'r drwydded mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno.
- () Os yw'r awdurdod lleol yn penderfynu bod amheuaeth wedi ei chodi ynghylch addasrwydd y ceisydd fel y'i disgrifir yn is-adran (2) mewn cysylltiad â rhoi triniaeth a bennir yn y cais—
 - (a) ni chaiff ddyroddi'r drwydded mewn cysylltiad â rhoi'r driniaeth honno, a
 - (b) rhaid iddo '.

Rebecca Evans

41

Section 63, page 35, after line 9, insert—

'() But subsection [*last subsection inserted by amendment 40*] is subject to the requirements set out in paragraphs 15 and 16 of Schedule 3.'

Adran 63, tudalen 35, ar ôl llinell 10, mewnosoder—

'() Ond mae is-adran [*yr is-adran olaf a fewnosodir gan welliant 40*] yn ddarostyngedig i'r gofynion a nodir ym mharagraffau 15 ac 16 o Atodlen 3.'

Rebecca Evans

42

Section 63, page 35, line 10, leave out subsection (3) and insert—

- '() For the purposes of this Part, each of the following is a relevant offence—
 - (a) an offence under this Part or under Part 4 (intimate piercing);
 - (b) an offence (whether under the law of England and Wales or elsewhere) that—
 - (i) involves violence,
 - (ii) is of a sexual nature, or relates to sexual material or images,
 - (iii) consists of tattooing a child under the age of 18,
 - (iv) relates to health and safety at work, or
 - (v) consists of a failure to comply with a requirement of a scheme for licensing or otherwise permitting or regulating the performance of an activity which is a special procedure for the purposes of this Act.'

Adran 63, tudalen 35, llinell 11, hepgorer is-adran (3) a mewnosoder—

'() At ddibenion y Rhan hon, mae pob un o'r canlynol yn drosedd berthnasol—



- (a) trosedd o dan y Rhan hon neu o dan Ran 4 (rhoi twll mewn rhan bersonol o'r corff);
- (b) trosedd (pa un ai o dan gyfraith Cymru a Lloegr neu rywle arall) sydd –
 - (i) yn ymwneud â thrais,
 - (ii) o natur rhywiol, neu sy'n ymwneud â deunydd neu ddelweddau rhywiol,
 - (iii) yn golygu tatwio plentyn o dan 18 oed,
 - (iv) yn ymwneud ag iechyd a diogelwch yn y gwaith, neu
 - (v) yn golygu methiant i gydymffurfio â gofyniad mewn cynllun ar gyfer trwyddedu neu fel arall ganiatáu neu reoleiddio cyflawni gweithgaredd sy'n driniaeth arbennig at ddibenion y Ddeddf hon.'

Rebecca Evans

43

Section 63, page 35, after line 22, insert –

